


Ymddiriedolaeth
Natur
**Gwent**
Wildlife Trust

# Adolygiad Blynyddol
2023/24



# Rhyfelwr Bywyd Gwyllt

"Rydw i'n credu bod cyfle ym mhob cymuned i helpu'r amgylchedd a byd natur yn ei gyfanrwydd…

*rydw i'n sefydlu clwb 'Eco Ryfelwyr' amser cinio yn fy ysgol i, i helpu eraill i ddysgu mwy am fyd natur, sut i'w warchod ac i gynnal prosiectau bach yn ein hysgol ni"*

*Aiden, Rhyfelwr Bywyd Gwyllt sydd wedi cymryd rhan yn ein prosiect Sefyll Dros Natur Cymru.*

CLOD FFOTO: NEIL ALDRIDGE, ANDY KARRAN, PETRA MITCHARD, WOODIER PHOTOGRAPHY

**Yn ein cornel hardd ni o Gymru, mae Ymddiriedolaeth Natur Gwent yn arwain y ffordd yn y frwydr i warchod bywyd gwyllt ac adfer byd natur. Rydym yn profi argyfwng hinsawdd byd-eang sy'n ffactor blaenllaw yn nirywiad byd natur, yn diraddio cynefinoedd ac yn lleihau bioamrywiaeth yn gyflym. O fewn y maes hwn rydym yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hyn yn uniongyrchol ac ysbrydoli pawb i weithredu.**

Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi gwneud cynnydd mawr wrth droi ein strategaeth 2030 yn realiti. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod bod adferiad byd natur ac adfer bioamrywiaeth wedi'u rhyngblethu'n annatod â sefydlogrwydd hinsawdd, diogelwch bwyd ac iechyd a lles pobl a chymunedau.

Yn erbyn cefndir o ddirywiad enbyd, (mae un o bob chwech o'n rhywogaethau ni mewn perygl o ddifodiant o Gymru) rydym yn cael ein calonogi bob dydd gan ffaglau gobaith byd natur a phositifrwydd pobl ac nid yw eleni wedi bod yn eithriad. Ochr yn ochr â'r miloedd o degeirianau'r waun a gofnodwyd eleni ar ddôl Brockwells; yr 17 rhywogaeth o Gapiau Cwyr ar Ddolydd New Grove a chofnodion newydd am Lygoden Bengron y Dŵr ar Gomin Bridewell, mae cannoedd o straeon calonogol gan y nifer cynyddol o bobl sy'n gweithredu'n lleol dros fywyd gwyllt ac yn helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd gyda ni.

Ym mis Medi 2023, roeddem yn falch o groesawu 70 o gefnogwyr i'n CCB wyneb yn wyneb cyntaf ers i gyfyngiadau covid gael eu codi, ac roedd yn arbennig o ysbrydoledig clywed yn uniongyrchol yno gan bobl ifanc sy'n ymwneud â'r prosiect Sefyll Dros Natur Cymru a rhai o'n gwirfoddolwyr adfer byd natur hynod ymroddedig ac ysbrydoledig ni, a pherchnogion tir lleol. Yn ystod yr un mis, fe wnaethom gynnal digwyddiad diolch gwych i'n gwirfoddolwyr anhygoel ni ar Fferm Pentwyn. Rydym hefyd wedi bod yn ymgyrchu yn erbyn y nifer cynyddol o fygythiadau i fyd natur, ochr yn ochr ag



Ymddiriedolaethau Natur eraill yn genedlaethol ac yng Nghymru gyda'n cymunedau lleol. Cyrhaeddodd ein hymgyrch barhaus i warchod Gwastadeddau Gwent garreg filltir bwysig ym mis Ionawr wrth i ni drosglwyddo mwy na 6,000 o lofnodion i Lywodraeth Cymru gan bobl sydd wedi ymuno â ni yn ein galwad am atal datblygiadau mawr ar SoDdGA Gwastadeddau Gwent. Cafodd hyn sylw cenedlaethol a rhanbarthol, gan dynnu sylw at bwysigrwydd gwarchod y dirwedd gwbl unigryw hon sydd dan fygythiad.

Daethom â mwy o bobl ifanc i mewn i'r mudiad i adfer byd natur, a darparwyd fforymau i wrando ar eu syniadau a'u casglu a defnyddio eu brwdfrydedd a'u creadigrwydd. Roedd gwersyll bywyd gwyllt yn un o'n gwarchodfeydd am benwythnos dros yr haf yn uchafbwynt arbennig iddynt hwy a ninnau!
Rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod wrth i ni barhau â'n gwaith hanfodol i roi byd natur mewn adferiad a sicrhau bod pobl a chymunedau Gwent yn rhan allweddol o'r siwrnai tuag at 2030.



Gemma Bodé Pennaeth Adferiad Natur a Phrif Swyddog Gweithredol Dros Dro



Marc Leppard Cadeirydd

## EIN NODAU STRATEGOL

1 Mae byd natur mewn adferiad, gyda bywyd gwyllt toreithiog ac amrywiol a phrosesau naturiol yn creu tir a morluniau gwylltach lle mae pobl a byd natur yn ffynnu.

2 Mae pobl yn gweithredu'n ystyrlon dros fyd natur a'r hinsawdd, gan arwain at wneud penderfyniadau gwell ar gyfer yr amgylchedd ar lefel leol ac ar draws pedair gwlad y DU.

3 Mae byd natur yn chwarae rhan ganolog a gwerthfawr wrth helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang.


# YMDDIRIEDOLAETH NATUR GWENT MEWN RHIFAU 2023-24 - GYDA'N GILYDD FE WNAETHON NI:

RHEOLI 723 O HECTARAU O DIR A 7KM O GYRSIAU DŴR AR GYFER BYWYD GWYLLT

RHOI CYNGOR AR REOLI **580 O HECTARAU PELLACH** O DIR A 10KM O GYRSIAU DŴR

RHOI CYNGOR I 46 O REOLWYR TIR AR **38 O SAFLEOEDD BYWYD GWYLLT LLEOL**

**GWARCHOD 28 O WARCHODFEYDD NATUR** LLECYNNAU ARBENNIG I FYWYD GWYLLT SYDD AR AGOR I'R CYHOEDD EU MWYNHAU **24 AWR Y DYDD, 365 DIWRNOD Y FLWYDDYN!**



**CYMERODD 600** O BOBL RAN MEWN **44 O DDIGWYDDIADAU** A SGYRSIAU

WEDI YMATEB I 310 O YMHOLIADAU GAN Y CYHOEDD AM **FYWYD GWYLLT, RHEOLI TIR, GWEITHREDU A MWY!**



28 **WARCHODFEYDD** NATUR

**27 STAFF**


379 **WIRFODDOLWYR COFRESTREDIG**

8218 AELODAU




LLOFNODODD MWY NA **6,000 O BOBL EIN DEISEB** NI I'R SENEDD, YN GALW AM ATAL DATBLYGIADAU MAWR NEWYDD YN SODDGA GWASTADEDDAU GWENT

**CODWYD £1,425,526** AR GYFER ADFERIAD BYD NATUR YNG NGWENT



**MWYNHAODD 650 O BOBL 5,400 AWR** O SESIYNAU IECHYD GWYLLT

**Cynhaliwyd 3 sesiwn hyfforddi ar gyfer 30 o athrawon**



**CROESAWYD 580** O AELODAU NEWYDD

RHODDODD 379 O **WIRFODDOLWYR 8004.5 AWR** O'U HAMSER AR GYFER **ADFERIAD BYD NATUR!**

CYMERODD 1,330 O BOBL YNG NGWENT RAN YN **30 DIWRNOD GWYLLT** EIN HER FLYNYDDOL NI I WNEUD RHYWBETH GWYLLT BOB DYDD YN YSTOD MIS MEHEFIN A'I WNEUD YN **ARFERIAD DRWY GYDOL Y FLWYDDYN!**





CLOD FFOTO: MARK HAMBLIN/2020 VISION

## AMCAN STRATEGOL 1

**Mae byd Natur mewn Adferiad** gyda bywyd gwyllt toreithiog ac amrywiol a phrosesau naturiol yn creu tir a morluniau gwylltach lle mae pobl a byd natur yn ffynnu.

## AMCAN STRATEGOL 1

# Mae byd Natur mewn Adferiad gyda bywyd gwyllt toreithiog ac amrywiol a phrosesau naturiol yn creu tir a morluniau gwylltach lle mae pobl a byd natur yn ffynnu.





Rydym yn rheoli ein Gwarchodfeydd Natur er budd hirdymor byd natur, drwy broses ailadroddus o fonitro a rheoli, gan addasu ein hymdrechion i sicrhau'r effaith fwyaf yn erbyn ein nod o adfer byd natur. Parhaodd ein gwaith monitro sylfaenol yn ein Gwarchodfeydd Natur ni o ddifrif eleni, gydag arolygon sylfaenol yn dod i gyfanswm o 70 o hectarau, yng Nghors Henllys, Brockwells, Silent Valley a rhan o Fferm Springdale. Dangosodd ein harolygon o lygod pengrwn y dŵr cyn y gaeaf yng Nghors Magwyr eu bod yn parhau i ffynnu ar y safle, a chadarnhaodd y gwaith monitro ar bathewod yng Nghroes Robert bod pathewod yn bresennol yno o hyd, er bod eu niferoedd yn isel. Mae ein Gwarchodfeydd Natur ni wedi parhau i fod yn destun un o'r buddsoddiadau mwyaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi cynnwys ffensio, prysgoedio, creu cynefinoedd, rheoli rhywogaethau estron a gwybodaeth wedi'i diweddaru. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n galed i gaffael sawl gwarchodfa natur newydd fel ein bod yn gallu darparu mwy o le i fywyd gwyllt ac adfer swyddogaethau ecosystem hanfodol ar draws mwy o dir. Gan gydweithredu â phartneriaid niferus, fe wnaethom barhau i gefnogi Prosiect Eryr y Môr, gan gwmpasu safleoedd a chefnogi ymgynghoriad cymunedol mewn digwyddiadau ledled Gwent.

CLOD FFOTO: KATH BEASLEY, LOWRI WATKINS

Yn ogystal â chynyddu arwynebedd a phoblogaethau rhywogaethau blaenoriaeth yng ngwarchodfeydd natur YNG, rydym yn gweithio i gynyddu cysylltedd cynefinoedd rhwng 50 o safleoedd dynodedig erbyn 2030. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn mapio ar raddfa fwy, i nodi cyfleoedd i wella cysylltiadau ar draws y dirwedd yng Ngwent.


Mae monitro rhywogaethau a chynefinoedd ein gwarchodfeydd natur gyda mapiau grid yn cynnwys adnabod, cyfrif ac asesu helaethrwydd, strwythur, oedran ac, mewn rhai achosion, cyflwr rhywogaethau o blanhigion o fewn sgwariau grid sefydlog o wahanol raddfa (25m/50m/100m), yn unol â'r math o safle a chynefin. Drwy ddefnyddio grid sefydlog, gallwn ddychwelyd i fonitro amrywiadau mewn planhigion a chynefinoedd yn fanylach dros amser. Gall y lefel hon o graffu ganfod newidiadau cynilach a mwy graddol, a chaniatáu i ni gysylltu'r rhain yn well â'r camau rheoli rydym wedi'u rhoi ar waith. Y nod yw creu dolen adborth monitro-rheoli effeithiol, gan roi hyder i ni bod y camau rydym yn eu cymryd yn arwain at y canlyniadau dymunol.

**Parhaodd ein gwaith ar Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol a buom yn cynghori bron i 50 o berchnogion** tir ar sut i reoli eu tir ar gyfer bywyd gwyllt gan gynyddu'r cysylltedd ar draws y dirwedd a chefnogi'r llysgenhadon hyn gyda'u safleoedd hynod arbennig. Mynychodd mwy na 70 o berchnogion tir ein diwrnod Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol blynyddol.

**Fel rhan o brosiect Adfer y Wern fe wnaethom gynnal dau gwrs adeiladu waliau cerrig**, ac yn ystod y rhain llwyddwyd i adfer darn 15m o hyd! Hyfforddwyd y gwirfoddolwyr a gymerodd ran mewn sgiliau sylfaenol, a gallant nawr fynd ymlaen i atgyweirio waliau cerrig yn ein gwarchodfeydd ni. Mae'r waliau'n gynefinoedd gwych gyda labyrinth o fannau cynnes sych oddi mewn iddynt ac maent hefyd yn darparu cynefinoedd ar gyfer llawer o rywogaethau o fwsoglau a chennau. Ochr yn ochr â waliau cerrig, mae seilwaith pori a monitro yn ei le bellach yn y Wern i groesawu gwartheg ar y safle yn ystod y misoedd nesaf, i adfer y darnau o ros sy'n dal i fodoli.


**Yn ei hanterth yn yr haf, roedd Dôl Brockwells yn edrych yn odidog**, gyda blodau gwyllt yn rheoli'r gwyndwn. Cofnodwyd 46 o ddangosyddion glaswelltir gennym ar draws y tri chae yn y SoDdGA, gan gynnwys Tegeirian y Waun, y Tegeirian Brych a Thegeirian-y-Gors Deheuol.

**Fe wnaethom hefyd gynnal 3 Arolwg Adar Magu yn gynnar yn y bore ar Gomin Bridewell a Chomin Barecroft** ac yng Nghors Magwyr i ddarparu llinell sylfaen dda i helpu fel sail i reolaeth, yn enwedig ar ein safle adfer diweddaraf ni ar Gomin Bridewell. Cofnodwyd 37 o rywogaethau ar Gomin Bridewell, 39 ar Gomin Barecroft a 41 ym Magwyr, gyda 50 o rywogaethau i gyd. Roedd crafu Telor yr Hesg yn bresennol drwy'r amser bron. Canfuwyd bod cornchwiglod yn magu mewn dau leoliad ar wahân yn union gerllaw Comin Barecroft, a'n gobaith ni yw y byddant yn ehangu i'n gwarchodfa ni.



## AMCAN STRATEGOL 1

# **Mae byd Natur mewn Adferiad** gyda bywyd gwyllt toreithiog ac amrywiol a phrosesau naturiol yn creu tir a morluniau gwylltach lle mae pobl a byd natur yn ffynnu.









### Cynyddodd ein hymdrechion ffocws ni i warchod deg rhywogaeth yn gyflym yn ystod y flwyddyn.

Rydym wedi datblygu a chyhoeddi cynlluniau monitro ar gyfer pob rhywogaeth. Yn ogystal, rydym wedi codi ymwybyddiaeth ac wedi ysbrydoli gweithredu drwy amrywiaeth o ymdrechion ymgysylltu, gan gynnwys digwyddiadau, teithiau tywys, sgyrsiau a chyfathrebu wedi'i dargedu at berchnogion tir, garddwyr, pobl ifanc, grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill ledled rhanbarth Gwent. Ar lawr gwlad, rydym wedi gosod bocsys nythu yn eu lle ar gyfer Tylluanod Gwynion a Bronwennod y Dŵr, wedi defnyddio matiau ymlusgiaid i sefydlu poblogaethau o Wiberod, ac wedi cynnal arolygon o'r Gardwenynen Feinlais mewn Gwarchodfeydd Natur wedi'u targedu.

**Rhoddwyd hwb aruthrol i'n gwaith ni ar adfer Llygoden Bengron y Dŵr ar Wastadeddau Gwent**, yn gyntaf drwy roddion i'n hapêl Nadolig 'Big Give' 'Gwlybdiroedd ar gyfer Llygod Pengrwn y Dŵr' (ym mis Rhagfyr 2022), wnaeth ein galluogi ni wedyn i wneud cais llwyddiannus am gyllid o £120k o NNF3 i ymestyn ein gwaith adfer ar gyfer Llygod Pengrwn y Dŵr ar Wastadeddau Gwent yn 2024.

**Mae ein prosiect cadwraeth ar gyfer y Bele yn derbyn cyllid o'r Gronfa Rhwydweithiau Natur**, y Loteri Genedlaethol ac Ardal o Dyffryn Gwy Tirwedd Cenedlaethol. Drwy ymdrechion ar y cyd gyda gwirfoddolwyr a pherchnogion tir, rydym wedi bod yn arolygu a defnyddio trapiau camera i weld y Bele yn ei gynefin naturiol… gan gynnwys mewn 3 o'n Gwarchodfeydd Natur ni!

**Daeth cymuned Gwent at ei gilydd i gefnogi poblogaethau lleol o ddraenogod. Adeiladodd cyfranogwyr Iechyd Gwyllt safle gaeafgysgu i ddraenogod**, gan gynnwys ym Masn Camlas Pont-y-moel. Adeiladodd un cyfranogwr gartref i ddraenogod yng Ngarnlydan, gydag arwyddion clir bod draenog wedi symud i mewn. Adeiladodd grŵp ieuenctid Nature Nurturers yn y Cymoedd gartref i ddraenogod a'i osod yng ngardd Llys Glyncoed, cartref i'r henoed.

### Hysbysu datblygiad polisi o blaid bywyd gwyllt:

Gydag Ymddiriedolaethau Natur eraill Cymru, fe wnaethom gyflwyno ymateb ar y cyd i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar newid darpariaethau ein dogfen polisi cynllunio cenedlaethol, Polisi Cynllunio Cymru. Anelwyd y gwelliannau arfaethedig (ymysg pethau eraill) at gryfhau'r warchodaeth a roddir i SoDdGAoedd gan system gynllunio Cymru, ac fe'u hysgogwyd yn rhannol gan ein heiriolaeth Senedd ar Wastadeddau Gwent. Fe wnaethom hefyd gyfrannu at ymgynghoriadau cenedlaethol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a rhyddhau ffesantod ger SoDdGAoedd.

**Ym mis Gorffennaf, lansiwyd ein deiseb gyhoeddus yn galw am Atal Datblygiadau Niweidiol yn SoDdGA Gwastadeddau Gwent**, fel rhan o'n hymgyrch Achub Gwastadeddau Gwent Eto. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru a'i Gweinidogion i atal y llu o fygythiadau niweidiol ar ffurf ceisiadau cynllunio datblygiadau, gan gynnwys nifer o orsafoedd pŵer solar yn y llecyn hanesyddol a gwerthfawr i fywyd gwyllt yma. Llofnododd 6,000 o bobl ein deiseb a gyflwynwyd gennym yn ffurfiol i Bwyllgor Deisebau'r Senedd ym mis Mawrth. Ar yr un diwrnod ag y cafodd ein deiseb ei thrafod gan Bwyllgor Deisebau'r Senedd, ymunodd mwy na chant o gefnogwyr yr ymgyrch â ni mewn gwrthdystiad heddychlon y tu allan i'r Senedd.

CLOD FFOTO: MARK HAMBLIN/2020 VISION, TERRY WHITTAKER/2020 VISION, PETRA MITCHARD




CLOD FFOTO: NERYS LLOYD-PIERCE

## AMCAN STRATEGOL 2

**Mae pobl yn cymryd camau ystyrlon dros** fyd natur a'r hinsawdd, gan arwain at wneud penderfyniadau gwell ar gyfer yr amgylchedd.

## AMCAN STRATEGOL 2

# Mae pobl yn cymryd camau ystyrlon dros fyd natur a'r hinsawdd, gan arwain at wneud penderfyniadau gwell ar gyfer yr amgylchedd.



**Mae tystiolaeth yn dweud, os cawn ni 1 o bob 4 o bobl i gymryd camau gweladwy dros fyd natur, rydyn ni'n creu 'pwynt tyngedfennol' cymdeithasol - eiliad hudolus pan fydd ymddygiad cymdeithasol (yn ein hachos ni, o blaid byd natur) yn symud y llu i wneud yr un peth.**


Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio ar draws trefi, siroedd a thirweddau Gwent i adeiladu "Tîm Gwyllt' a helpu i gael cydbwysedd o blaid byd natur. Mae pobl yn gweithredu dros fyd natur ar draws y sir sydd o bwys iddynt; gwneuthurwyr, symudwyr, ysgogwyr, llysgenhadon, ymgyrchwyr a phobl sy'n creu newid, gan greu'r newid sydd ei angen ar fyd natur gyda'i gilydd!

Yng Nghasnewydd, buom yn gweithio gyda chymunedau o amgylch Pilgwenlli, drwy brosiect Natur Drws Nesaf, i ddeall eu blaenoriaethau ar gyfer eu hamgylchedd lleol a'u helpu i weithredu dros fyd natur lleol. Diolch i gyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, cefnogwyd pobl gyda chyngor i helpu byd natur ar garreg eu drws, gan adael gwaddol naturiol barhaol i nodi Jiwbilî Platinwm y Frenhines.

Drwy Gronfa Rhwydwaith Natur Llywodraeth Cymru, roedd posib i ni gyflogi Ecolegydd Cymunedol, gan ein galluogi i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli newydd a chyffrous i weddu i ystod ehangach o bobl sydd eisiau gweithredu, gan gynnwys tasgau gwaith penwythnos a chyfleoedd monitro rhywogaethau ar draws ein gwarchodfeydd natur. Hefyd gyda'r cyllid hwn, rydym wedi gallu ehangu mynediad i'n gwarchodfeydd natur drwy ddarparu gwybodaeth ddigidol fel ffotograffiaeth 'Google Streetview' a PhotoSphere o'r guddfan adar yng Nghors Magwyr, i alluogi cynllunio cyn ymweld, a llwybrau digidol i deuluoedd eu mwynhau. Gyda help gwirfoddolwyr, gwnaethom hefyd welliannau mynediad gwych yn Silent Valley drwy'r prosiect 'Creu Bwrlwm'. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi wyneb newydd ar y maes parcio a gwneud gwelliannau i'r warchodfa er budd pryfed peillio.

Cymerodd pobl ifanc 9 i 24 oed gamau gweithredu mewn cymunedau o Gasnewydd i'r Cymoedd Dwyreiniol yn ystod blwyddyn olaf y prosiect ledled Cymru gyfan, Sefyll Dros Natur Cymru. Roedd y cyflawniadau allweddol yn cynnwys cyflwyno eu hymgyrch 'Addewid i Beidio â Defnyddio Plaladdwyr' ger bron Aelodau Seneddol eu hetholaethau ym Mae Caerdydd ac adeiladu Gardd Bywyd Gwyllt ar gampws LINC ar gyfer pobl hŷn yn Llys Glyncoed yng Nglynebwy. Fe wnaethant rannu eu hangerdd a'u cyflawniadau gydag aelodau a gwirfoddolwyr yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, lle bu'r cyfranogwyr yn rhannu eu gwybodaeth a'u hymrwymiad i fywyd gwyllt, sy'n dod â gobaith ar gyfer y dyfodol. Bu aelodau o'n grwpiau Sefyll Dros Natur Cymru (Wildlife Warriors a Nature Nurturers) yn chwarae rhan allweddol hefyd yn ein harddangosfa y tu allan i'r Senedd ym mis Mawrth yn mynnu gwarchodaeth i'r rhwydwaith o SoDdGAoedd ar Wastadeddau Gwent, gan ddarparu presenoldeb gweladwy o genedlaethau'r dyfodol i weld ein deiseb ni, oedd wedi cael ei llofnodi gan 6,000 o bobl, yn cael gwrandawiad.

Buom yn gweithio gyda chymunedau ledled Gwent i gyflwyno cyrsiau, digwyddiadau ac adnoddau i helpu pobl i weithredu dros fyd natur. Galluogodd Cronfa Cymunedau Gwydn Cyfoeth Naturiol Cymru ni i gynhyrchu amrywiaeth o adnoddau, darparu 121 o gynghorion a chyflwyno cyrsiau hyfforddi a digwyddiadau i uwchsgilio hyrwyddwyr cymunedol ac eraill sy'n gweithredu dros fywyd gwyllt lleol. Boed wyneb yn wyneb mewn digwyddiadau a sioeau, drwy ein negeseuon e-bost misol, sianeli cyfryngau cymdeithasol neu gylchgronau Wild About Gwent, mae ein cyfathrebu ni wedi ysbrydoli miloedd o bobl o bob oed o bob cornel o Went i gysylltu â byd natur a dysgu a darganfod.



**Bwydo adar o afalau a datgymalu peledi tylluanod**

Cymerodd 30 o bobl ran mewn digwyddiad ymgysylltu cymunedol ar y cyd a gynhaliwyd gennym gyda CBS Blaenau Gwent a Groundwork Wales yng Nghaffi Tyleri, Cwmtyleri. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys gwneud teclynnau bwydo adar o afalau, adeiladu bocsys adar a datgymalu peledi tylluanod. Braf oedd cyfarfod criw newydd, ac roedd yn arbennig o braf gweld diddordeb y rhieni yn cynyddu yn y gweithgareddau, yn enwedig y peledi tylluanod, a'u gweld yn ymuno â'r bobl ifanc ac yn awyddus i ddysgu mwy am ba benglogau roedden nhw'n dod o hyd iddyn nhw!

**Wal 'clawdd'**

Buom yn gweithio gyda gwirfoddolwyr yn Silent Valley i adeiladu wal 'clawdd' hyfryd. Mae'r math yma o wal yn arbennig o dda ar gyfer bywyd gwyllt, gan gynnwys gwenyn sy'n nythu yn y bylchau. Yn wahanol i waliau cerrig, mae'r bylchau'n cael eu llenwi â phridd ac wedyn haen o dywarchen, a thros amser bydd y glaswellt yn tyfu allan o'r wal ac yn helpu i glymu'r cerrig at ei gilydd.

**Casglu Sbwriel**

Fe wnaethom arwain sesiwn casglu sbwriel ar y cyd â gwirfoddolwyr Tirwedd Genedlaethol Dyffryn Gwy yn ein gwarchodfa natur ni yng Nghoed Piercefield ychydig uwchben Cas-gwent. Broc môr o afon Gwy oedd y rhan fwyaf o'r sbwriel a gasglwyd, broc sy'n cael ei ddyddodi ar y dolydd ar lanw uchel. Roedd casglu'r sbwriel o'r dolydd glan afon yn y gwaelod yn her. Yn ffodus, fe wnaethom ymuno â Chymdeithas Achub Ardal Hafren (SARA) a helpodd drwy fynd ag ef allan ar gwch ar Afon Gwy.





CLOD FFOTO: KATH BEASLEY, CLAWDD, SESIWN CASGLU SBWRIEL, PETE HADFIELD



CLOD FFOTO: IAN THOMAS

AMCAN STRATEGOL 3

## Mae byd natur yn chwarae rhan ganolog a gwerthfawr

wrth helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang.

## AMCAN STRATEGOL 3

# **Mae byd natur yn chwarae rhan ganolog a gwerthfawr** wrth helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang.



**Iechyd a Lles i fod yn fecanwaith cyflawni parhaol i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan:**
Mae ein gwaith Iechyd Gwyllt yn parhau i ddangos tystiolaeth o effeithiolrwydd ymyrraeth iechyd sy'n seiliedig ar natur gan ysgogi adborth gwych gan gleientiaid sy'n dangos sut mae'n newid eu bywydau. Fe wnaethom helpu 650 o bobl o grwpiau Iechyd Gwyllt i ymweld â mwy nag 80 o safleoedd ledled Gwent yn 2023, i gael mynediad at fyd natur ar garreg eu drws. Cwblhaodd Pobl yn Gyntaf Casnewydd archwiliad hygyrchedd safle yn un o'n gwarchodfeydd natur (Cors Magwyr) gyda Rheolwr Adfer Natur Ymddiriedolaeth Natur Gwent. Fe wnaethant ddangos perchnogaeth a brwdfrydedd gwirioneddol dros wirio giatiau, arwyddion ac yn y blaen ac o ganlyniad i'w harchwiliad, mae meinciau newydd wedi cael eu gosod yn eu lle ac mae llwybrau wedi cael eu lledu. Dywedodd un cyfranogwr o'r grŵp, "Mae Ymddiriedolaeth Natur Gwent wedi gwneud i mi hoffi byd natur."

Gwirfoddolodd cyfranogwyr o grŵp Rewild Home Ed i helpu gyda gweithgareddau ar gyfer y grŵp Diwylliant a Chelfyddydau Romani. Dywedodd un rhiant, "Mae'n dda i ni fel teulu integreiddio â chymunedau eraill." Mae'r grŵp Rewild wedi gwneud cyfraniad anhygoel at Fasn Pont-y-moel, gan osod bocsys adar yn eu lle a safle gaeafgysgu i ymlusgiaid, lefelu'r tir i wneud ardal eistedd, plannu coed, ac adeiladu gwely enfawr ar thema cwch i groesawu pobl leol i'r ardal. Maent bellach yn gallu cynnal sesiynau yn annibynnol ar Iechyd Gwyllt gan ddefnyddio offer a brynwyd gan y prosiect.

CLOD FFOTO: NATHALIE NICOLAUS, IAN THOMAS

Yn ystod yr haf, cefnogodd Iechyd Gwyllt brosiect peilot Buckholt Bryngaer yn Sir Fynwy i ddarparu cyfres o ymweliadau dydd â'r fryngaer o'r Oes Haearn ar gyfer teuluoedd o ffoaduriaid o Afghanistan ac Wcráin a grwpiau gofalwyr ifanc. Mwynhaodd y cyfranogwyr chwilio am fwyd a choginio dros y tân gyda'i gilydd, gan ddweud ei fod yn eu hatgoffa o fod yn ôl yn Wcráin.

Aethom ati i gyfrannu tystiolaeth at adroddiad cenedlaethol; Gwasanaeth Iechyd Naturiol: Gwella Bywydau ac Arbed Arian oedd yn ymchwilio i raglenni presgripsiynau gwyrdd dan arweiniad yr Ymddiriedolaethau Natur. Roedd hwn yn dangos sut gallai rhaglenni iechyd a lles wedi'u targedu sy'n seiliedig ar natur arbed mwy na £635 miliwn y flwyddyn. Prosiectau Iechyd seiliedig ar natur yn arbed amser ac arian i'r GIG | Ymddiriedolaeth Natur Gwent Canfu dadansoddiad bod ein prosiect Iechyd Gwyllt wedi arbed £66,882 mewn costau gofal iechyd, sy'n cyfateb i arbediad o £471 y cyfranogwr. (Am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi, mae £0.58 i £1.10 o fudd ychwanegol o ran costau is i'r GIG.)

"Dywedodd un gŵr y byddai'n gwneud esgus i osgoi lleoliadau grŵp cyn ymwneud â sesiynau Ymddiriedolaeth Natur Gwent oherwydd bod ei orbryder yn mynd yn ormod iddo. Dywedodd ei fod wedi deffro fore Mercher ac yn hytrach na theimlo'n ofnus roedd yn teimlo'n gyffrous i fynychu. Mae'n cael mwynhad wrth gysylltu â byd natur a rhannu'r ffeithiau wnaeth eu dysgu yn y sesiwn gyda'i anwyliaid. Mae'n gallu rheoli ei orbryder yn well ac ymweld â gofod gwyrdd yn amlach gyda'i deulu." Carly, Gweithiwr Cymorth Therapi Galwedigaethol, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Casnewydd

**Rydyn ni'n cael ein cydnabod fel yr awdurdod yng Ngwent ar gyfer Atebion Seiliedig ar Natur yn ymwneud â dŵr:**
Fe wnaethom recriwtio ein Swyddog Prosiect Adfer Afonydd cyntaf, sydd wedi bod yn datblygu ein gwaith o amgylch yr Afon Wysg ac yn arwain Dinesydd Wyddonwyr ym maes monitro ansawdd dŵr.

Rydym yn bartner allweddol ym Mhartneriaeth Afonydd y Cymoedd ac yn gweithio gyda'r Ganolfan Adfer Afonydd i ddatblygu ein gwaith ymhellach yn y maes hwn, gan gynnwys camau gweithredu ar y safle i wella ansawdd dŵr, lleihau llifoedd brig a dal a storio carbon.

Mae ardal Gwent yn cynnwys pedair afon a'u llednentydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar gefnogi adferiad Afonydd y Cymoedd, lle rydym wedi bod yn ymchwilio i gyfleoedd i adfer glannau afonydd, cynnal arolygon ar gynefinoedd afonydd, monitro ansawdd dŵr ac infertebrata, rheoli rhywogaethau ymledol, a chasglu sbwriel. Rydym wedi recriwtio tua 30 o wirfoddolwyr sydd wedi bod yn cymryd rhan yn ein gweithgareddau ni sy'n ymwneud ag afonydd, gan gynnwys monitro a chofnodi'r bywyd gwyllt a welir.

Ym mis Hydref y llynedd, ymunodd Ymddiriedolaeth Natur Gwent â phrosiect 'CaSTCo': rhaglen i fonitro ansawdd dŵr yn nalgylch Afon Wysg, prosiect sy'n cael ei reoli gan Sefydliad Gwy ac Wysg. Er gwaethaf ei dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), mae'r Afon Wysg yn dirywio'n ecolegol, gyda nodweddion cynefin sy'n anffafriol i'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau gwarchodedig, gan gynnwys yr Eog Atlantaidd, Gwangod, Llysywod Pendoll, Pennau Lletwad, a Chrafanc-y-Frân y Dŵr. Mae llygredd dŵr a ffactorau eraill sy'n achosi straen ar ansawdd y dŵr yn un o brif sbardunau'r colledion bioamrywiaeth yn y dalgylch. Mae YNG wedi hyfforddi 29 o ddinesydd wyddonwyr a fu'n monitro 24 o leoliadau samplu a neilltuwyd bob wythnos, sef Afon Wysg i lawr yr afon o'r Fenni, Afon Lwyd, Afon Clydach, a llednentydd llai. Rydym hefyd yn mesur pa mor glir neu gymylog yw'r dŵr, yn mesur y gronynnau crog yn y dŵr ac yn arsylwi nodweddion cadwraeth ac amodau'r safle. Mae hyn yn cynnwys monitro erydiad glan yr afon, presenoldeb blodau algaidd, a gweld rhywogaethau allweddol o anifeiliaid a phlanhigion, fel y Dyfrgi, Bronwen y Dŵr, neu Grafanc-y-Frân y Dŵr. Mae cofnodi rhywogaethau ymledol fel y Ffromlys Chwarennog, Canclwm Japan a'r Efwr Enfawr yn rhan o'r arolwg wythnosol hefyd.





Roedd Susan Brown yn un o'r dinesydd wyddonwyr cyntaf i ymuno â grŵp YNG y llynedd. Mae hi'n monitro Afon Lwyd, llednant sy'n llifo i'r Wysg yng Nghaerllion; *"Heb yr amser am ddim a'r ymdrech sy'n cael eu darparu gan ddinesydd wyddonwyr, byddai costau llafur rhaglen fonitro gyda chwmpas fel hyn ac ar y raddfa yma'n ormod, felly – yn enwedig wrth i mi drosglwyddo i ymddeoliad – mae'n teimlo'n dda perthyn i dîm sy'n galluogi i brosiect mor bwysig fynd rhagddo. Hefyd, rydw i'n mwynhau defnyddio'r fersiwn 'oedolyn' o set gemeg plentyn!"*

# **Blwyddyn i Fywyd Gwyllt** Uchafbwyntiau o bob rhan o Went




## Ebrill 23

Lansiwyd ein rhaglen Deg Rhywogaeth Agored i Niwed yn rhifyn y gwanwyn o Wild About Gwent (ein rhifyn digidol cyntaf hefyd), gyda chynlluniau gweithredu i helpu i adfer amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau eraill ochr yn ochr â'r rhain: y Gweirlöyn Llwyd, y Gardwenynen Feinlais, y Draenog, y Wiber, y Troellwr Mawr, Bronwen y Dŵr, y Bele, Llygoden Bengron y Dŵr, y Dylluan Wen a'r Cap Cwyr Pinc.



## Mai 23

Daethom o hyd i faw Llygoden Bengron y Dŵr ar rafft monitro oedd wedi'i lleoli ar y rhan gyntaf o'r ffos sych y gwnaethom ei chlirio a'i hailwlychu ar Gomin Bridewell. Roedd y ffos wedi dechrau aildyfu'n braf felly mae'n rhaid bod y llygod pengrwn y dŵr wedi penderfynu ei fod yn llecyn digon da iddyn nhw symud i mewn!



## Mehefin 23

Mwynhaodd pobl ifanc wersylla gwyllt allan yng ngwarchodfa natur Fferm Pentwyn. Mwynhaodd ein grwpiau ieuenctid, y Wildlife Warriors a'r Nature Nurturers, dridiau o ddod yn nes at natur a dysgu sgiliau amrywiol, o ddal gwyfynod a modrwyo adar i adnabod blodau a chrefftau natur.



## Gorffennaf 23

Darganfyddiad cyffrous ar Fferm Springdale - Gorfanhadlen Fawr! Mae *Orobanche rapum-genistae* yn eithaf arbennig; heb gloroffyl mae'n dibynnu ar rywogaethau eraill i'w gynnal - yn enwedig planhigion trwchus yn nheulu'r pys, y mae'n eu parasiteiddio drwy dapio i mewn i'w gwreiddiau am faethynnau. Cafodd ei ddatgan fel planhigyn wedi wynebu difodiant yn lleol yn y gorffennol diweddar a dyma'r ail gofnod yn unig yng Ngwent ers bron i 20 mlynedd.



## Awst 23

Ar ôl chwe mis o waith, agorodd tîm Sefyll Dros Natur Cymru ardd bywyd gwyllt mewn cartref gofal preswyl i'r henoed yng Nglynebwy – gofod newydd i bobl a bywyd gwyllt ei fwynhau gyda'i gilydd.



## Medi 23

Cyhoeddodd Cymdeithas Gweision y Neidr Prydain bod Gwarchodfa Natur Cors Magwyr yn Llecyn Allweddol i Weision y Neidr yn y DU - safle arbennig a ddewiswyd oherwydd yr amrywiaeth o rywogaethau o weision y neidr a mursennod sydd yn y lleoliad a'r cyfleoedd i bobl ddysgu mwy am y rhywogaethau gwlybdir eiconig hyn.



## Hydref 23

Cafodd ymroddiad un o'n gwirfoddolwyr gwych ni ei gydnabod gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, wrth i Charlotte Beard ennill gwobr Gwirfoddolwr Amgylcheddol y Flwyddyn Casnewydd! Mae Charlotte yn ysbrydoliaeth i'r bobl ifanc yn ein grwpiau ieuenctid ac i ni.



## Tachwedd 23

Cynhaliwyd ein sesiwn hyfforddi samplo dŵr cyntaf o dan faner gwyddoniaeth y dinesydd ar afon Wysg fel rhan o'n cyfraniad at brosiect CaSTCo. Mae gwirfoddolwyr yn ein helpu ni i gasglu data am ansawdd y dŵr i'n helpu i ddeall ein hafonydd yn well, gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a gwella statws ecolegol ACA Afon Wysg.




## Rhagfyr 23

Cyfrannodd ein cefnogwyr ni gyfanswm anhygoel o £26,281.25 at ein hapêl Mighty Meadows gyda chyllid cyfatebol gan Big Give! Ers y 1960au, rydym wedi colli mwy na 97% o'n dolydd gwair yn y DU. Mae'r cyllid yn helpu i adfer, rheoli, creu a monitro mwy o ddolydd gwair llawn bywyd gwyllt yng Ngwent yn ystod 2024.



## Ionawr 24

Ar ôl blwyddyn anhygoel, gyda 664 o gyfranogwyr wedi darganfod bywyd gwyllt ar garreg eu drws a theimlo'r manteision o godi allan i'r awyr agored a chysylltu â byd natur, cyflwynodd ein tîm Iechyd Gwyllt ein hadroddiad effaith i NLCF Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2023 TERFYNOL.pdf



## Chwefror 24

Llofnododd 6,000 o bobl ein deiseb ni i 'Atal datblygiadau newydd sylweddol yn SoDdGA Gwastadeddau Gwent' a throsglwyddwyd y ddeiseb i'r Senedd yng Nghaerdydd. Mae Iolo Williams, Gillian Burke a Lizzie Daly yn cefnogi ein hymgyrch sy'n sbarduno dadl genedlaethol.




## Mawrth 24

Mae'r trapiau camera rydym wedi'u gosod yn eu lle yn cynhyrchu cofnodion o'r Bele yn nid un, ond dwy, o'n gwarchodfeydd natur! Mae Gwent yn elwa o brosiectau ailgyflwyno yn Swydd Gaerloyw gyda'r Bele bellach yn cael ei gofnodi ar safleoedd ledled Gwent. Mae'r ffilm yn ein helpu ni i ddysgu mwy am y creadur swil yma, er mwyn i ni allu rhoi atebion seiliedig ar natur addas yn eu lle i gynorthwyo ei adferiad.

CLOD FFOTO: ANDY KARRAN, LOWRI WATKINS, ROB MAGEE, NERYS LLOYD-PIERCE, ROSE O'HAGAN, NATHALIE NICOLAUS, BECCY WILLIAMS

# **Ein Cyllid** ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31aim Mawrth 2024

## Incwm




| | |
|---|---|
| 58% | GRANTIAU AC YMDDIRIEDOLAETHAU |
| 18% | AELODAETH |
| 12% | RHODDION A CHYMYNRODDION |
| 4% | INCWM A ENILLWYD |
| 4% | CODI ARIAN ARALL |
| 5% | ARALL |

**Grantiau ac Ymddiriedolaethau - £819,792** Grantiau gan gyrff statudol, (e.e. Llywodraeth Cymru), ymddiriedolaethau elusennol a sefydliadau

**Aelodaeth - £250,244** Cyfraniadau rheolaidd gan aelodau (pobl a busnesau)


**Rhoddion a Chymynroddion - £171,380** Cyfraniadau, rhoddion mewn ewyllysiau ac er cof a chefnogaeth busnes

**Incwm a Enillwyd - £57,329** Gwerthu gwasanaethau, masnachu, rhent, incwm digwyddiadau a chyrsiau

**Codi arian arall - £61,949** Yn cynnwys raffl flynyddol a gweithgareddau codi arian cymunedol

**Arall - £64,832** Buddsoddiadau

## Gwariant




| | |
|---|---|
| 70% | DIOGELU BYWYD GWYLLT AC ENNYN DIDDORDEB POBL |
| 9% | CYMORTH GWEITHREDOL |
| 6% | CYNHYRCHU CYLLID |
| 8% | AELODAETH |
| 7% | LLYWODRAETHU |

**Diogelu bywyd gwyllt ac ennyn diddordeb pobl - £1,084,136** Cyflawni a chostau uniongyrchol cysylltiedig ein gwaith cadwraeth, addysg, polisi, ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgyrchu

**Cymorth Gweithredol - £130,882** Swyddogaethau cydymffurfio a chymorth gan gynnwys Cyllid, Iechyd a Diogelwch, T.G, Adnoddau Dynol

**Cynhyrchu cyllid - £96,550** Costau staff a swyddfa cysylltiedig â chynhyrchu cyllid ar gyfer ein gwaith

**Aelodaeth - £123,332** Costau recriwtio aelodaeth, cyfathrebu ac ariannol a gweinyddol prosesu rhoddion rheolaidd

**Llywodraethu - £110,594** Archwiliad blynyddol, ffioedd ymgynghori a chyfreithiol a chostau cyfarfodydd y bwrdd llywodraethu

Bydd cyfrifon archwiliedig llawn ar gael ar ein gwefan ni erbyn 1af Medi, 2023 yn gwentwildlife.org/our-funding wour-funding

ARIANWYR GRANT:

# Pobl Ymddiriedolaeth Natur Gwent

(Ar 24 Mehefin 2024)

**Noddwr** – Iolo Williams
**Llywydd** – Chris Hatch
**Llywydd Emeritws** – Roger James
**Is Lywyddion** – Julia James, Stephanie Tyler, Richard Waller

**BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR**
Marc Leppard – Gadeirydd
Mavis McKenzie Cecil – Ysgrifennydd (Cyfetholedig)
Ian Mawdsley – Trysorydd (Cyfetholedig)
Susan Finn – (Ysgrifennydd tan 27/9/23)
David Rees
Lucy Holland Ford
Richard Howell
Dr Mary Barkham (Cyfetholedig)
Juliet Holt-Wilson (Cyfetholedig)
Tom Abbey-Smith (Cyfetholedig)
Tim Rathbone (Cyfetholedig)

**Gyda diolch arbennig i:** Gwirfoddolwyr Grwpiau Lleol yng Nghas-gwent, Brynbuga a Threfynwy, Gwastadeddwyr Gwent, gwirfoddolwyr y Cymoedd Dwyreiniol, bugeiliaid Pentwyn a Wyeswood a'r llu o unigolion angerddol ac ymroddedig eraill sy'n rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i gefnogi ein gwaith.







CLOD FFOTO: WOODIER PHOTOGRAPHY, DEBBIE STENNER, HANNAH CUBIE

# Staff

(Ar Mawrth 2024)

**Prif Weithredwr** – Adam Taylor (Tan Mawrth 2024)

**TÎM ADFER NATUR:**
**Pennaeth Adferiad Natur a Phrif Swyddog Gweithredol**
**Dros Dro** - Gemma Bodé
**Rheolwr Tystiolaeth** - Andy Karran
**Uwch Swyddog Tystiolaeth** – Lowri Watkins
**Ecolegydd Cymunedol** – Kath Beasley
**Rheolwr Adfer Natur** – Thomas Campbell
**Uwch Swyddog Cadwraeth Pori** – Joe Ryder
**Swyddog Adfer Natur** – Ben Boylett
**Swyddog Adfer Natur** – Liz W

**TÎM DATRYSIADAU SEILIEDIG AR NATUR**
**Pennaeth Datrysiadau Seiliedig ar Natur** – Natalie Waller
**Uwch Swyddog Iechyd Gwyllt** – Ian Thomas
**Swyddog Iechyd Gwyllt** – Rose O'Hagan
**Uwch Swyddog Ymgysylltu ag Ieuenctid** – Beccy Williams
**Swyddog Ymgysylltu ag Ieuenctid** – Petra Mitchard
**Swyddog Ymgysylltu ag Ieuenctid** – Robert Magee
**Rheolwr Programme** – Elizabeth Stokes
**Uwch Drefnydd Cymunedol** – Kevin Donovan
**Uwch Swyddog Adfer Afonydd** – Nathalie Nicolaus

**STAFF CRAIDD A CHEFNOGAETH**
Mae ein tîm craidd yn gweithio o'n pencadlys gan gefnogi ein timau cyflawni drwy weithredu'r cyfrifon, gweinyddiaeth, cyllid, codi arian, cyfathrebu a swyddogaethau rheoli eraill.

**Swyddog TG a Diogelwch** – Anthony Cook
**Swyddog Cyllid a Gweinyddu** – Jo Taylor
**Rheolwr Adnoddau Dynol & Swyddog Gwirfoddoli** – Sarah Coleman
**Pennaeth Codi Arian a Chyfathrebu** – Debbie Stenner
**Gweinyddwr Aelodaeth a Marchnata** – Lois Holroyd
**Uwch-swyddog y Wasg a Chyfathrebu** – Sarah Harris
**Swyddog Marchnata** – Hamish Blair

**YMDDIRIEDOLAETH NATUR GWENT**
Ystafell Castanwydd, Tŷ Mamheilad – Bloc A,
Ystad Parc Mamheilad, Pont-y-pŵl, NP4 0HZ
Ff: 01600 740600.
Ebost: info@gwentwildlife.org
Gwefan: www.gwentwildlife.org

Rhif elusen: 242619
Rhif cwmni: 00812535
Swyddfa gofrestredig: Ystafell Castanwydd, Tŷ Mamheilad – Bloc A, Ystad Parc Mamheilad, Pont-y-pŵl, NP4 0HZ

Dyluniwyd gan Jones Design Create Ltd.